

Adolygiad Cyflym Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

**Beth yw effeithiolrwydd ymgynghoriadau o bell o'u cymharu ag ymgynghoriadau wyneb yn wyneb mewn amgylcheddau cleifion allanol llawfeddygol gofal eilaidd?
Rhif adroddiad – 00032 Gorffennaf 2022**

Manylion yr Adolygiad Cyflym

Adolygiad wedi'i gynnal gan:

Canolfan Cymru ar gyfer Gofal Sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth

Tîm Adolygu:

- Deborah Edwards
- Judit Csontos
- Liz Gillen
- Judith Carrier

Adolygiad wedi'i gyflwyno i WCEC ar:

7^{fed} Gorffennaf 2022

Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid:

18^{fed} Gorffennaf 2022

Adroddiad ar yr Adolygiad Cyflym wedi'i gyhoeddi gan WCEC ar:

Awst 2022

Tîm WCEC:

- Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis, Emma Small, Jane Greenwell, a gyfrannodd at ddrafftio'r Crynodeb o'r Prif Bwyntiau a'i olygu

Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel a ganlyn:

RR00032. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd ymgynghoriadau o bell o'u cymharu ag ymgynghoriadau wyneb yn wyneb mewn amgylcheddau cleifion allanol llawfeddygol gofal eilaidd. Awst, 2022.

Gellir cyrchu'r adroddiad hwn o lyfrgell WCEC: <https://ymchwiliachydaqofalcymru.org/llyfrgell-adroddiadau-canolfan-tystiolaeth-cofid-19-cymru>

Ymwadiad: Barn yr awduron yw'r rhai sydd wedi'u mynegi yn y cyhoeddiad hwn, yn hytrach na barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro.

**Beth yw effeithiolrwydd ymgynghoriadau o bell o'u cymharu ag ymgynghoriadau wyneb yn wyneb mewn amgylcheddau cleifion allanol llawfeddygol gofal eilaidd?
Rhif adroddiad – 00032 Gorffennaf 2022**

CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

Beth ydy Adolygiad Cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dal fyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth er mwyn hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon ond eto bob amser rhoi sylw i duedd. Maent yn dilyn yr argymhellion methodolegol a'r safonau gofynnol ar gyfer cynnal adolygiadau cyflym ac adrodd arnynt, gan gynnwys protocol strwythuredig, chwilio systematig, sgrinio, tynnu data, arfarnu beirniadol a chyfuno tystiolaeth i ateb cwestiwn penodol a nodi bylchau allweddol mewn ymchwil. Maent yn cymryd 1-2 fis, gan ddibynnu ar ehangder a chymhlethdod y pwnc/ cwestiwn/ cwestiynau ymchwil, graddau'r sylfaen dystiolaeth a'r math o ddadansoddi sy'n ofynnol i gyfuno'r dystiolaeth.

Ar gyfer pwy mae'r crynodeb hwn?

Mireiniwyd y cwestiwn ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid o gwestiynau ynglŷn ag ymgynghori o bell a awgrymwyd gan Gyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a'r Coleg Brenhinol Podiatreg.

Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym

Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn defnyddio ymgynghoriadau o bell a thelefeddygaeth dros y pandemig. Mae yna dystiolaeth bod dal yn well gan rai cleifion y ffordd hon o gyflenwi gofal a bydd arbed amser hefyd o bosibl yn galluogi ymgynghoriadau ychwanegol ac yn helpu i leihau rhestrau aros. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd ymgynghori o bell ar gyfer rhai arbenigeddau, fel llawdriniaeth, yn aneglur. Ein nod oedd ymchwilio i effeithiolrwydd ymgynghoriadau fideo neu ymgynghoriadau dros y ffôn, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddeilliannau clinigol, deilliannau yn ôl cleifion a deilliannau o ran diogelwch, mewn gofal eilaidd cleifion allanol llawfeddygol a oedd yn oedolion yn ystod y pandemig COVID-19.

Darganfyddiadau Allweddol

Graddau'r sylfaen dystiolaeth

- **3 Darpar astudiaeth cohort**
 - 2 a gwblhawyd yn UDA (llawdriniaeth thyroid/ parathyroid a llawdriniaeth rhyddhau twnnel carpal)
 - 1 yn Chile (llawdriniaeth abdomenol)

- **11 Astudiaeth cohort ôl-weithredol**
 - 8 a gwblhawyd yn UDA (llawdriniaeth orthopedig (n=2); llawdriniaeth yr asgwrn cefn (n=3), llawdriniaeth yn gysylltiedig â chanser (n=2), laryngoleg (n=1))
 - 3 yn y DU (llawdriniaeth orthopedig) (n=2), enwaediad (n=1))

- **Roedd cymhwysedd cleifion yn amrywio:** Ni ddisgrifiwyd dewis cleifion neu lawfeddygon, na'r offeryn penderfynu

- **Roedd nifer y cyfranogion yn amrywio:** (n=32-535)

- **Roedd ymgynghoriadau'n amrywio:** asesiad cychwynnol, cyn ac ar ôl llawdriniaeth; fideo neu dros y ffôn
- **Roedd cohortau a astudiwyd yn amrywio:** un, dau neu dri cohort
- **Roedd deilliannau'n amrywio:** trosi i ymgynghoriad yn y cnawd; cymhlethdodau a mynychu apwyntiadau ar ôl llawdriniaeth; afiachedd a marwolaeth; cytundeb diagnostig; newid cynllun rheoli; costau

Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth

- Cyhoeddwyd pob un o'r astudiaethau yn **2021/22**

Tystiolaeth o effeithiolrwydd

Darpar astudiaethau

- Roedd cymhlethdodau ar ôl llawdriniaeth yn **debyg** yn achos telefeddygaeth o'i gymharu ag ymgynghoriadau yn y cnawd ar gyfer llawdriniaeth **thyroid/ parathyroid a llawdriniaeth abdomenol**.
- I gleifion a oedd yn cael **llawdriniaeth abdomenol**, roedd **afiachedd ar ôl llawdriniaeth** a'r angen am **ymweliadau ychwanegol â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu ymweliadau yn y cnawd** yn **debyg** pa bynnag fodd ymgynghori a ddefnyddiwyd (telefeddygaeth o'i chymharu ag ymgynghori yn y cnawd). Hefyd, **nid oedd unrhyw farwolaeth ar ôl llawdriniaeth** yn yr adroddiadau ar gyfer y naill grŵp na'r llall.
- Roedd yna **gytundeb diagnostig** ar gyfer **cleifion twnnel carpal** o'r ymgynghoriad o bell cychwynnol a'r archwiliad diweddarach yn y cnawd, **heb fod angen newid y cynllun rheoli ar gyfer unrhyw glaf**.

Astudiaethau ôl-weithredol

- Roedd **cyfraddau canslo ar ddiwrnod y llawdriniaeth** yn debyg pan gynhaliwyd **gwerthusiadau cyn anesthesia** trwy **fideo-gynadledda** o'u cymharu â'r rheini yn y cnawd i gleifion roedd **llawdriniaeth yn gysylltiedig â chanser** wedi'i threfnu ar eu cyfer.
- Roedd **aillderbyn i'r ysbyty a marwolaeth o fewn 30 a 90 diwrnod** ar ôl **llawdriniaeth yn gysylltiedig â chanser** yn **debyg** pa bynnag fodd ymgynghori a ddefnyddiwyd (telefeddygaeth o'i chymharu ag ymgynghori yn y cnawd).
- Nid oedd **cynlluniau llawfeddygol** a gynhyrchwyd trwy telefeddygaeth ar gyfer **cleifion orthopedig brin byth yn cael eu newid** yn sgil gwerthusiad yn y cnawd.
- Roedd y dystiolaeth yn **gymysg** ar gyfer **effeithiolrwydd ymgynghoriadau dros y ffôn** o'u cymharu ag ymgynghoriadau yn y cnawd ar gyfer cleifion orthopedig ar sail offeryn sgorio llythrennau clinigol.
- Roedd **cyfraddau cymhlethdodau ar ôl llawdriniaeth, ymweliadau ar ôl llawdriniaeth a chyfraddau ail-lawdrin** ar ôl **llawdriniaeth orthopedig** yn **debyg** pa bynnag fodd ymgynghori a ddefnyddiwyd (telefeddygaeth a galwadau ffôn o'u cymharu ag ymgynghori yn y cnawd).
- Roedd **cyfraddau aillderbyn ac ail-lawdrin** yn debyg pan gynhaliwyd **ymgynghoriadau amweithredol** trwy **fideo-gynadledda** o'u cymharu ag ymgynghoriadau yn y cnawd ar gyfer cleifion â **llawdriniaeth yr asgwrn cefn** wedi'i threfnu ar eu cyfer; ac roedd fideo-gynadledda hefyd wedi **cynhyrchu cynlluniau llawdriniaeth yr asgwrn cefn manwl gywir nad oedd angen eu newid** ar ddiwrnod y llawdriniaeth.

- Gellir arbed **costau**, a chwtogi **amser cyn llawdriniaeth** pan gynhelir **ymgyngoriadau amdriniaethol** trwy **alwadau ffôn** o'u cymharu ag ymgynghoriadau yn y cnaud yn achos cleifion sy'n cael eu hasesu ar gyfer **enwaediad**; roedd **cyfraddau canslo clinigol** yn debyg i'r ddau grŵp.
- Gellir defnyddio telefeddygaeth i ddarparu **cynllun rheoli a diagnosis rhagarweiniol** ar gyfer **cwynion yn gysylltiedig â laryngoleg**.

Goblygiadau i Bolisi

- Mae'r dystiolaeth o **ansawdd isel** ond mae'n awgrymu bod **ymgyngoriadau o bell yr un mor effeithiol ag ymgynghoriadau yn y cnaud** ar gyfer llawer o ymgynghoriadau cleifion allanol llawfeddygol.
- Mae gan ymgynghoriadau o bell **botensial i arbed amser ac arian** o'u cymharu ag ymgynghoriadau yn y cnaud.
- **Mae angen ymchwil o ansawdd uchel** i werthuso effeithiolrwydd ymgynghoriadau o bell, er mwyn deall pa gleifion a pha arbenigeddau llawfeddygol y byddai hyn o'r budd mwyaf iddynt.

Cryfder y Dystiolaeth

Mae'r dystiolaeth o **ansawdd isel neu isel iawn** oherwydd **dyluniadau astudiaethau arsylwadol, meintiau samplau bach a'r cleifion a ddetholwyd**.